# Dewch i ganfod rhagor am y comin sydd ar stepen eich drws!!

Mae'r Cynllun *Comin Cydweithredol – Common Collaboration* Project yn eich gwahodd i weithdy undydd, yn **RHAD AC AM DDIM** er mwyn codi ymwybyddiaeth. Dewch i ganfod rhagor am Gomin Gelligaer a Merthyr:

- ***Archaeoleg, hanes a threftadaeth ddiddorol;***
- ***Mannau arbennig ar gyfer natur;***
- ***Sut mae'r comin yn cael ei reoli;***
- ***Yr heriau y mae rheolwyr tir yn eu hwynebu;***
- ***Y cyfleoedd ar gyfer y dyfodol.***

Mae nifer cyfyngedig o leoedd felly, y cyntaf i'r felin. Archebwch eich lle yn awr drwy e-bostio trefnydd y gweithdy, Gareth Kiddie – gareth@gka.org.uk neu ffoniwch Gareth ar (07984) 127811.

***Gweler trosodd** am ragor o fanylion ynghylch dyddiadau a lleoliadau…*

COMIN GELLIGAER & MERTHYR COMMON

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

COMIN GELLIGAER & MERTHYR COMMON

# *Manylion y gweithdy:*

- **Pam y dylech ddod i'r gweithdy?** Mae'r gweithdy **AM DDIM**. Mae dewis o ddyddiadau a lleoliadau ac mae cinio bwyd bys a bawd wedi ei gynnwys. Bydd amrywiaeth o siaradwyr diddorol.
- **Ar gyfer pwy mae'r gweithdy?** Pobl sydd yn byw gerllaw Comin Gelligaer a Merthyr. Nid oes angen gwybodaeth flaenorol, dim ond brwdfrydedd am y Comin sydd ar stepen eich drws!
- **Ble fydd y gweithdy yn cael ei gynnal?** Bydd y gweithdy rhwng 9.30 a 3.30 p.m. Dewiswch un o'r canlynol:
  - ***Dydd Sadwrn 25 Medi*** *– Canolfan Rock UK Summit Centre, Trelewis*
  - ***Dydd Mercher 29 Medi –*** *Canolfan Gymunedol Fochriw**
  - ***Dydd Mawrth 5 Hydref -*** *Canolfan Rock UK Summit Centre, Trelewis*

  Cymraeg **Bydd cyfieithiad Cymraeg ar y pryd ar gael ar gyfer y sesiwn hwn, yn destun rheoliadau Covid-19 ar y pryd.*

- **Beth fydd yn digwydd ar y dydd?** Yn y bore, bydd cyfranogwyr yn dysgu rhagor am hanes a natur y Comin yn ogystal â'r modd y mae'n cael ei reoli. Yn y prynhawn, byddwn yn mynd am daith gerdded fer ar y Comin er mwyn gweld yr heriau y mae rheolwyr y Comin yn eu hwynebu a byddwn yn datgelu rhai o gyfrinachau gorau'r Comin!

# *Diddordeb?*

**Cofrestrwch heddiw!** Y cyntaf i'r felin. Am ragor o wybodaeth a/neu i archebu'ch lle, e-bostiwch drefnydd y gweithdy, Gareth Kiddie – gareth@gka.org.uk neu ffoniwch Gareth ar (07984) 127811.